Educate Against ~~Hate~~



Y Manosffer

Esboniad Educate Against Hate

HM Government

CYNNWYS

03 Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?

04 Rhybudd cynnwys

04 Nodyn am yr esboniad hwn

05 Beth yw'r manosffer?

06 Y grwpiau amlycaf o fewn y manosffer

07 Sut mae'r manosffer yn cysylltu ag ideoleg Incel?

08 Pam mae hyn yn berthnasol i ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant?

09 Pa newidiadau mewn ymddygiad y dylwn gadw llygad amdanynt?

10 Iaith a chysyniadau a ddefnyddir ar draws y manosffer

12 Siarad â phobl ifanc am y manosffer

14 Datblygu gwydnwch rhag y manosffer

15 Beth i'w wneud os oes gennych bryderon

Ar gyfer pwy mae'r esboniad hwn?

Mae'r esboniad hwn yn rhan o gyfres o ddogfennau wedi'u cynllunio i'ch helpu i ddeall a nodi amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc. Mae'n ategu ein hesboniadau ar y canlynol:

- Incels
- Algorithmau

Mae'r esboniad hwn yn nodi beth yw is-ddiwylliant ar-lein y manosffer a'r arwyddion y gallai person ifanc fod yn ymgysylltu ag ef. Bydd yn ddefnyddiol ar gyfer:

- athrawon ysgol uwchradd
- myfyrwyr hŷn
- arweinwyr ysgolion
- personau diogelu dynodedig
- pawb sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg sy'n destun y ddyletswydd Prevent

Bydd yr esboniad hwn yn helpu i ddeall:

- beth yw'r manosffer
- pa dermau a chysyniadau a ddefnyddir ar draws is-ddiwylliant y manosffer
- y niwed posibl o ymgysylltu â'r manosffer, gan gynnwys hunanladdiad, hunan-niweidio, ac eithafiaeth dreisgar
- beth i'w wneud os ydych yn pryderu bod myfyriwr neu ddysgwr yn ymgysylltu â'r manosffer

Termau Allweddol	Diffiniadau
Misogynedd	Teimladau o gasineb tuag at fenywod a'r gred bod menywod yn israddol i ddynion.
Misogynedd eithafol	Teimlad o gasineb tuag at fenywod a all arwain at drais.
Algorithm	Mae algorithmau yn offer digidol a ddefnyddir gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol i ddadansoddi'r hyn mae pobl yn ei hoffi a gwthio mwy o'r pethau hynny i'r bobl sy'n rhyngweithio â nhw.

Rhybudd cynnwys

Mae'r esboniad hwn yn cynnwys:

- cyfeiriadau at gynnwys sydd wedi'i fwriadu i annog trais a/neu drais rhywiol, a chynnwys sy'n trafod ac yn annog hunanladdiad a hunan-niweidio
- cyfeiriadau at gynnwys eithafol gan gynnwys misogynedd treisgar, ac ideolegau eithafol eraill

Byddem yn eich annog i geisio cymorth os yw unrhyw ran o'r cynnwys yn effeithio arnoch.

Mae adran 15 y ddogfen hon yn esbonio beth i'w wneud os oes gennych bryderon am berson ifanc.

Nodyn am y ddogfen hon

Mae'r esboniad hwn yn rhoi trosolwg o is-ddiwylliant ar-lein y manosffer a lle gall pryderon ychwanegol – gan gynnwys diogelu, iechyd meddwl gwael, a Prevent – godi.

Mae'r manosffer yn cynnwys llawer iawn o gynnwys y gellid ei ystyried yn fisogynistaidd. Mae'r manosffer yn ymwneud yn bennaf â thrafodaethau am wrywdod, hawliau dynion, a materion sy'n effeithio ar ddynion, yn aml o safbwynt sy'n feirniadol o ffeministiaeth. Yr hyn sy'n uno'r gwahanol grwpiau hyn yw'r gred sylfaenol bod menywod yn israddol i ddynion ac y dylent fod yn ddarostynedig iddynt.

Er y gall rhai sy'n ymwneud ag is-ddiwylliant y manosffer uniaethu ag ideolegau Incel eithafol, gall llawer o bobl ifanc sy'n cysylltu â'r manosffer fod â phroblemau iechyd meddwl a hunan-barch isel, ac arddel y farn eu bod yn gynhenid ddiffygiol mewn rhyw ffordd. Y risg fwyaf cyffredin sy'n gysylltiedig ag Incels yw niwed hunangyfeiriedig, gan gynnwys synio am hunanladdiad a gweithredu arno. Er yr ymddengys fod rhai rhannau o is-ddiwylliant y manosffer yn cyflawni swyddogaeth gefnogol, gall eraill waethygu teimladau a meddyliau negyddol tuag at yr hunan ac eraill.

Y risg fwyaf cyffredin sy'n gysylltiedig ag Incels yw niwed hunangyfeiriedig, gan gynnwys synio am hunanladdiad a gweithredu arno.

Y Manosffer

Beth yw'r manosffer?

Casgliad rhyngwladol o **gymunedau ar-lein** yw'r manosffer, gan gynnwys gwefannau, fforymau, blogiau, a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n **trafod y materion sy'n ymwneud â dynion, gwrywdod a rôl dynion mewn cymdeithas**. Wrth i boblogrwydd y cymunedau hyn dyfu, bu **cynnydd hefyd mewn cynnwys eithriadol o fisogynistaidd** a ddefnyddir ar fforymau sydd bellach wedi'u dominyddu gan safbwyntiau rhywiaethol, gwrth-fenywod, gwrth-ffeministaidd a misogynistaidd – gan **gyfiawnhau** neu **hyrwyddo trais** yn aml.

Daeth y manosffer i'r amlwg ar ddechrau'r 2000au – gan ddarparu mannau ar-lein i ddynion drafod eu profiadau, eu cwynion, eu cydberthnasau, a hunanwella. I ddechrau, trafodaethau am hawliau dynion a'r anghydraddoldebau y mae rhai dynion yn eu canfod oedd yn dominyddu'r mannau hyn. Mae'r manosffer bellach wedi esblygu i fod yn fan lle mae safbwyntiau misogynistaidd yn gyffredin.

Beth sy'n denu pobl ifanc i'r manosffer?

Ar draws y manosffer mae grwpiau'n trafod pynciau fel iechyd, gemau, gwleidyddiaeth, a chyllid – a gallai pob un ohonynt apelio at bobl ifanc. Mae rhai dylanwadwyr ar-lein yn y manosffer yn ceisio cynyddu nifer eu dilynwyr drwy eu cyflwyno eu hunain yn bennaf fel sylwebwyr ar ffitrwydd neu chwaraeon – meysydd sydd yn aml o ddiddordeb i bobl ifanc.

Sut mae pobl ifanc yn dod o hyd i'r manosffer?

Gellir dod o hyd i'r grwpiau hyn a'r safbwyntiau cysylltiedig ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol prif ffrwd fel Instagram, Facebook, ac X (a elwid gynt yn Twitter). Mae platfformau eraill fel TikTok a YouTube hefyd yn bwyntiau mynediad i'r manosffer, gyda phrosesau algorithmig yn argymell mathau tebyg o gynnwys, gan dynnu pobl ifanc fesul cam i'r man ar-lein hwn hyd yn oed os nad ydynt yn mynd ati i chwilio amdano.

Y grwpiau amlycaf o fewn y manosffer

Grwpiau'r manosffer	Ffocws allweddol
Dynion sy'n mynd eu ffordd eu hunain (MGTOW)	Mudiad sy'n annog dynion i osgoi menywod yn gyfan gwbl, gan ddewis ymatal rhag cydberthnasau a rhyw.
Ymgyrchwyr Hawliau Dynion (MRA)	Mae ymgyrchwyr hawliau dynion yn hyrwyddo "gwahaniaethu canfyddedig yn erbyn dynion mewn cymdeithas". Mae'r gymuned MRA yn aml yn bychanu neu'n diystyru'n llwyr faterion menywod, gan feio ffeministiaeth am yr hyn y maent yn ei weld fel dirywiad yng ngrym a statws dynion.
Artistiaid Codi (PUA)	Mae'r gymuned hon yn seiliedig ar ddysgeidiaeth ar sut i ystrywio menywod neu eu gorfodi i gael rhyw gyda dynion.
Diwair Anwirfoddol (Incel)	Dynion yw Incels sy'n teimlo nad ydynt yn gallu denu partneriaid rhywiol neu ramantus er eu bod yn dymuno cael cydberthnasau, ac maent yn priodoli hyn i ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth, fel eu golwg neu normau cymdeithasol.

Cysylltiadau allweddol rhwng y manosffer ac ideoleg Incel

Gall y manosffer fod yn borth i rai dynion ifanc fabwysiadu safbwyntiau cynyddol eithafol, yn enwedig pan fyddant yn teimlo wedi'u dieithrio neu eu gwrthod. Nid yw pob aelod o'r manosffer yn Incels, ond mae'n bwysig nodi bod **ideoleg Incel yn gangen radical** o'r manosffer ehangach. Mae athroniaeth y "Bilsen Goch" (sy'n gyffredin yn y manosffer) yn aml yn arwain at dyngedfennaeth "Pilsen Ddu" cymunedau Incel.

Gall ymdeimlad gwael o'r hunan a chanfyddiad negyddol o eraill wneud pobl ifanc yn fwy agored i uniaethu ag Incel ac ideolegau eithafol eraill.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y cysylltiadau a'r mân wahaniaethau rhwng ideoleg y manosffer ac ideoleg Incel:

Cysylltiadau	Y manosffer	Ideoleg Incel	Cysylltiad
Rolau rhywedd	Hyrwyddo rolau traddodiadol neu or-wrywaidd	Yn credu bod rolau rhywedd modern yn rhoi dynion anneniadol dan anfantais	Gwrthod safbwyntiau ffeministaidd yn weithredol
Misogynedd	Yn amrywio yn ôl grŵp, ond yn aml yn bresennol	Yn ganolog i'r ideoleg	Casineb a rennir tuag at fenywod
Naratif Dioddefaint	Mae dynion yn ddioddefwyr systemau cymdeithasol/ffeministaidd	Mae Incels yn ddioddefwyr detholiad rhywiol a chymdeithas	Rhannu byd-olwg sy'n seiliedig ar gwynion
Cymunedau Ar-lein	Reddit, fforymau, YouTube, blogiau	4chan, fforymau Incel, Reddit (e.e., r/Braincels, sydd bellach wedi'i wahardd)	Mae platfformau a defnyddwyr yn aml yn gorgyffwrdd
Ffugwyddor	Damcaniaethau'r "Bilsen Goch", seicoleg esblygiadol	Tyngedfennaeth y "Bilsen Ddu", penderfyniaeth ar sail golwg	Defnydd a rennir o seicoleg anwyddonol i gyfiawnhau credoau

Pam mae hyn yn berthnasol i ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant?

- Gall y manosffer greu disgwyliadau afrealistig ymhlith dynion ifanc am gydberthnasau, rhyw, menywod, ac ati, a all arwain at hunan-barch isel, problemau iechyd meddwl, ac mewn rhai achosion, synio am hunanladdiad.

- Mae rhywfaint o gynnwys o fewn y manosffer yn rhannu tir cyffredin ag ideoleg Incel ac mae'n hynod o fisogynistaidd wrth hyrwyddo agenda gwrth-ffeministaidd.

- Wrth i ddynion ifanc ymgolli ymhellach yn yr is-ddiwylliant ar-lein, gallant fynd yn fwyfwy ynysig, gan waethygu'r materion hyn o bosibl. Er bod y manosffer yn ei gyflwyno ei hun fel cymuned ar-lein gefnogol i ddynion ifanc, gall rhannau o'r manosffer hybu ac annog trais, hunan-niweidio a hunanladdiad, ac mae gweithredoedd o drais wedi bod yn gysylltiedig â chynnwys y manosffer a'r gymuned ar-lein.

- Mae cymunedau'r manosffer yn aml yn gorgyffwrdd â rhai'r dde eithafol, er enghraifft drwy esgusodi'r farn bod hierarchaeth hiliol yn bodoli a bod ffeministiaeth wedi cael effaith negyddol ar gymdeithas y Gorllewin.

- Gall dehongliadau eithafol o grefydd arwain at arferion misogynistaidd, gan gynnwys cyfyngiadau ar hawliau menywod, cyfranogiad cyfyngedig mewn bywyd cyhoeddus, a chyfiawnhau trais fel cam-drin domestig a lladd ar sail anrhydedd.

- Mae beio menywod a/neu ffeministiaeth am y materion sy'n wynebu dynion ifanc heddiw yn atgyfnerthu anghydraddoldeb rhywedd a stereoteipiau negyddol. Mae'r manosffer yn ceisio cynnig esboniadau ac atebion i gyfres wirioneddol o faterion sy'n wynebu rhai dynion ifanc.

- Mae rhywfaint o'r wybodaeth yn ffeithiol anghywir, ac wrth i niferoedd cynyddol o bobl ifanc chwilio am wybodaeth drwy sianeli ar-lein amgen, mae'n eu hamlygu i fwy o risg o dwyllwybodaeth.



Pa newidiadau mewn ymddygiad y dylwn gadw llygad amdanynt?

Iaith ac agwedd

- Defnydd o jargon y manosffer: termau fel gwryw alffa/beta, pilsen goch, simp, hypergamy, SMV (gwerth ar y farchnad rywiol), femoid, Chad neu Stacey
- Mwy o sinigiaeth neu elyniaeth tuag at athrawon a chyfoedion benywaidd: cyffredinoli bod menywod yn ystrywgar, yn arwynebol, neu â diddordeb mewn arian/statws yn unig
- Mabwysiadu rolau rhywedd anhyblyg: y gred y dylai dynion fod yn ddominyddol ac y dylai menywod fod yn ddarostyngedig.

Ymddygiad ar-lein

- Ymweliadau mynych â fforymau neu ddylanwadwyr penodol: safleoedd fel r/TheRedPill ar Reddit, rhai byrddau 4chan, neu sianeli YouTube sy'n hyrwyddo 'hunanwella dynion' gyda gogwydd misogynistaidd
- Ymgysylltu bwriadol neu anfwriadol â chynnwys sy'n cael ei sbarduno gan algorithmau: gall gwylio un neu ddau fideo ar hunangymorth i ddynion neu gyngor ynghylch canlyn arwain at ffrwd o gynnwys y manosffer drwy algorithmau argymell.

Cymdeithasol ac emosiynol

- Ynysu neu fynd i'w gragen: treulio mwy o amser ar-lein, yn enwedig mewn siambrau adlais, a llai o amser gyda ffrindiau neu deulu
- Mwy o rwystredigaeth neu ddicter: yn enwedig ynghylch canlyn, cydberthnasau, neu anghyfiawnderau cymdeithasol canfyddedig yn erbyn dynion
- Meddylfryd dioddefwr: y gred bod cymdeithas yn rhagfarnllyd yn erbyn dynion neu fod ffeministiaeth wedi mynd 'yn rhy bell'.

Modelau rôl wedi'u newid

- Edmygu a delfrydu dylanwadwyr neu ffigurau sy'n gysylltiedig â'r manosffer sy'n hyrwyddo safbwyntiau hynod fisogynistaidd: eilunaddoli dylanwadwyr gwenwynig a chrewyr cynnwys y cyfeirir atynt yn aml yng nghylchoedd y manosffer
- Dirmyg tuag at ffigurau prif ffrwd: gwrthod ffigurau cyhoeddus sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd neu werthoedd blaengar.

Ymatebion i feirniadaeth

- Diystyru safbwyntiau gwrthwynebus: labelu beirniaid fel rhai sydd wedi 'llyncu'r bilsen las', yn 'NPCs' (cymeriadau na ellir eu chwarae), neu'n 'ffeministiaid'
- Atgyfnerthu siambr adlais: ffafrio mannau lle caiff eu safbwyntiau eu dilysu a lle caiff safbwyntiau gwrthwynebus eu gwawdio neu yr ymosodir arnynt.

Termau'r manosffer

Term	Ystyr
Gwryw alffa/beta	Dynion statws uchel/isel
Pilsen ddu	Barn benderfyniaethol nad oes gan ddynion reolaeth mewn byd sy'n elyniaethus i'w hanghenion, lle mae gan fenywod fantais o ganlyniad i ffeministiaeth
Deddf Briffault	Cysyniad sy'n honni nad yw menywod yn ymwneud â dynion oni bai eu bod yn gweld budd uniongyrchol
Chad	Dyn hynod ddeniadol, hyderus sy'n llwyddiannus gyda menywod
Gwyryfon Diddyled	Y ddelfryd o fenyw sy'n rhydd o ddyled ariannol ac sydd heb fawr o hanes cydberthnasau
Ofn Honiadau Ffug	Y pryder y gall menyw wneud honiadau ffug yn erbyn dyn a difetha ei enw da
Femoid	Term difrïol am fenywod sy'n meddwl mewn termau syml am atgenhedlu gyda mathau penodol o ddynion
Gamer	Yn disgrifio dyn a ystyrir yn hynod fedrus wrth hudo
Hypergamy	Yr arfer o chwilio am bartner o statws cymdeithasol, economaidd neu addysgol uwch
MeToo Backlash	Adlach MeToo
NPC (non-playable character)	Term o fyd gemau yn wreiddiol am gymeriadau a reolir gan y gêm yn hytrach na chan y chwaraewr dynol; fe'i defnyddir i awgrymu bod rhywun heb feddwl annibynnol, yn dilyn tueddiadau neu farn pobl eraill

Termau'r manosffer

Term	Meaning
Pilsen goch/Pilsen las	Daw o olygfa yn y ffilm The Matrix: • Coch – yn cyfeirio at ddeffro i fyd-olwg newydd, sy'n aml yn ddadleuol • Glas – yn awgrymu glynu wrth gredoau prif ffrwd neu dderbyniol
Peacocking	Y dechneg o wisgo'n drawiadol i ddenu sylw
SMV (Gwerth ar y Farchnad Rywiol)	Pa mor ddymunol yr ystyrir unigolyn fel partner rhamantus neu rywiol, yn seiliedig ar nodweddion fel atyniad corfforol, statws, personoliaeth, ac adnoddau
Simp	Person sy'n or-ddarostyngedig neu'n or-sylwgar tuag at rywun y mae'n cael ei ddenu ato, yn aml ar draul ei urddas neu ei hunan-barch ei hun
Stacey	Menyw sy'n ddeniadol, yn hyderus yn gymdeithasol ac sy'n cael rhyw, ac a ystyrir yn aml yn anghyraeddadwy
Y wal	Term a ddefnyddir yn y manosffer am yr oedran pan fydd menywod yn llai deniadol
Marchog gwyn	Dyn sy'n ceisio ennill ffafr menywod neu gael cydberthnasau rhywiol â hwy drwy eu trin fel rhai diniwed a thyner sydd angen amddiffyniad, gwarchodaeth a chymorth cymdeithasol yn barhaus

Sut ydw i'n siarad â phobl ifanc am y manosffer?

Mae siarad â pherson ifanc a allai fod dan ddylanwad y manosffer yn gofyn am ddull meddylgar ac empathig. Dyma rai awgrymiadau ymarferol i'ch helpu i lunio'r sgwrs:

Byddwch yn chwilfrydig, nid yn wrthdrawiadol

- Gofynnwch gwestiynau penagored fel: "Beth ydych chi'n ei hoffi am y cynnwys hwnnw?" neu "Sut gwnaethoch chi ddod ar draws y syniad hwnnw?" – mae hyn yn helpu pobl ifanc i fod yn agored am yr hyn y maent yn ei weld ar-lein.
- Osgowch iaith feirniadol: Gall beirniadu eu credoau neu ddweud wrthynt eu bod yn anghywir eu gwneud yn amddiffynnol, gan eu gwthio'n ddyfnach i siambrau adlais a'u gwneud yn llai tebygol o fod yn onest am eu meddyliau a'u teimladau

Blaenoriaethwch ymddiriedaeth

- Canolbwyntiwch ar eich perthynas â'r person ifanc. Sicrhewch eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u parchu, a bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi
- Peidiwch â rhuthro i gywiro – crëwch le iddynt fynegi eu hunain yn llawn a dangoswch eich bod yn gwrando, cyn cynnig safbwyntiau amgen

Cydnabod yr apêl

- Mae llawer yn cael eu denu at y manosffer oherwydd ei fod yn cynnig:
  - Ymdeimlad o berthyn
  - Atebion syml i broblemau cymdeithasol cymhleth, dynameg, ac anghyfiawnderau canfyddedig
  - Elfen o reolaeth neu rymuso
- Cydnabyddwch fod gan bob un ohonom yr anghenion hyn ac awgrymwch ffyrdd iachach o'u diwallu.
- Siaradwch â staff eraill yn eich ysgol neu'ch coleg am sut y gall gweithgareddau cyfoethogi neu gymorth bugeiliol ddiwallu'r anghenion hyn.



Anogwch feddwl beirniadol

- Gofynnwch gwestiynau fel:
  - “Pwy sy’n cael budd o’r neges hon?”
  - “A ydych yn meddwl bod hyn yn berthnasol i bawb?”
  - “Beth fyddech chi’n ei ddweud pe bai rhywun yn dweud hynny am eich chwaer/mam/ffrind?”
- Mae’r dull hwn yn helpu pobl ifanc i ddeall y diffygion yn y wybodaeth y gallent fod yn dod ar ei thraws
- Dadansoddwch enghreifftiau o’r math hwn o gynnwys gyda phobl ifanc a'u helpu i adnabod tactegau ystrywgar fel defnydd anghywir o ddata neu iaith emosiynol orliwiedig, a’r arfer o hau twyllwybodaeth ymhlith ffeithiau a gwirioneddau hawdd eu derbyn

Cynigiwch ddewisiadau amgen cadarnhaol

- Cyflwynwch hwy i fodelau rôl gwrywaidd iach sy’n hyrwyddo deallusrwydd emosiynol, parch a thwf
- Awgrymwch grewyr cynnwys neu gymunedau amgen sy’n canolbwyntio ar hunanwella heb fisogynedd

Gosodwch ffiniau pan fo angen

- Os yw’r sgwrs yn mynd yn ofidus neu’n niweidiol, mae’n iawn dweud:
  - “Rwy’n poeni amdanoch chi, ond ni allaf gefnogi’r math hwnnw o feddwl”
  - “Gadewch i ni gymryd seibiant o’r pwnc hwn”

Byddwch yn amyneddgar

- Mae newid agweddau yn broses, nid sgwrs untro
- Mae’n bwysig dathlu newidiadau bach mewn meddwl, yn ogystal â chadw’r drws ar agor ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol



Datblygu gwydnwch rhag y manosffer

Addysg cydberthynas a rhywioldeb a diogelwch ar-lein

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn un o elfennau gorfodol Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol hwn yn cefnogi ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm. Mae'r cynnwys yn seiliedig ar linynnau dysgu cysylltiedig bras, sef:

- cydberthnasau a hunaniaeth
- iechyd rhywiol a lles
- grymuso, diogelwch a pharch

Dylai hyn ymgorffori trafod dylanwadau cymdeithasol a chyd-fynd â gofynion gorfodol y Cod yr Hyn sy'n Bwysig yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- gwella llythrennedd yn y cyfryngau a meddwl beirniadol
- nodi a herio syniadau niweidiol, gan gynnwys gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb i bobl ifanc yn eu helpu gyda'r canlynol:

- datblygu cydberthnasau iach, parchus; llesiant meddyliol; diogelwch ac ymwybyddiaeth ar-lein; a diogelwch personol.

Mae llawer o adnoddau am ddim ar gael y gall ysgolion fanteisio arnynt wrth gyflwyno'r pynciau hyn mewn perthynas â'r pwnc a drafodir yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Canllawiau statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- Canllawiau ac adnoddau i gefnogi athrawon a'r gymuned ysgol ehangach ar ardal Cadw'n Ddiogel Ar-lein Hwb
- Misogyny in schools - Guidance for teachers | Internet Matters (Saesneg yn unig)



Beth i'w wneud os oes gennych bryderon

Beth i'w wneud os oes gennych bryderon uniongyrchol am ddiogelwch

Os ydych yn meddwl bod rhywun mewn perygl uniongyrchol, neu os byddwch yn gweld neu'n clywed rhywbeth a allai fod yn gysylltiedig â therfysgaeth, dylech ymddiried yn eich greddf a ffonio 999 neu'r Llinell Gymorth Gwrthderfysgaeth gyfrinachol ar 0800 789 321.

Beth i'w wneud os oes gennych bryderon ynghylch radicaleiddio

Gall unigolion sy'n cyrchu fforymau Incel drwy'r manosffer fod yn agored i rethreg eithafol, gyda'r risg y gall y rhai sy'n agored i niwed gael eu radicaleiddio. O ganlyniad, gellir atgyfeirio'r unigolion hynny i Prevent. Mae hyn weithiau ar gyfer Incel yn unig, ond gall hefyd berthyn i'r categori ideolegau gwrthdrawiadol. Mae'r categori hwn yn adlewyrchu achosion lle mae'r math o bryder a gyflwynir yn cynnwys elfennau o ideolegau lluosog, newidiadau rhwng ideolegau gwahanol, neu lle nad yw'r unigolyn yn cyflwyno ideoleg gydlynol ond gall fod yn agored i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth.

Dylai eich camau gweithredu cyntaf fod yn dilyn gweithdrefnau diogelu safonol eich lleoliad. Mae hyn yn cynnwys trafod unrhyw bryderon ag arweinydd diogelu dynodedig eich ysgol, a allai gymryd cyngor pellach gan yr awdurdod lleol.

Cymorth ychwanegol y tu allan i'ch ysgol

Siaradwch â thîm diogelu ysgolion eich awdurdod lleol a/neu cysylltwch â'ch heddlu lleol neu ffoniwch 101 fel rhif yr heddlu nad yw'n rhif brys.

I gael rhagor o wybodaeth am beth i'w wneud os oes gennych bryderon, ewch i Educate Against Hate.



Educate Against ~~Hate~~